# PANEL DETHOL Y PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 a 30 Gorffennaf 2019

**PRESENNOL:** **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**

Y Cynghorydd Margaret M Roberts (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones
Y Cynghorydd Robert Ll Jones

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Y Cynghorydd Gordon Warren

**Aelodau Annibynnol**

Dr Teleri M Jones

**WRTH LAW:** Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) (MY)
Swyddog Pwyllgor (SC)

**YMDDIHEURIADAU:** Dim

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones ddiddordeb personol yn Eitem 4 ar y rhaglen, gan ei fod yn adnabod un o'r ymgeiswyr.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft cyfarfod blaenorol y Panel Dethol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin 2019 yn gywir.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

## 4 CYNNAL CYFWELIADAU AR GYFER RÔL AELODAU ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro ar y broses gyfweld ar gyfer yr ymgeiswyr ar y rhestr fer i'w penodi i'r pedair sedd wag ar gyfer aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.

Croesawodd y Cadeirydd bob un o'r ymgeiswyr i'r cyfarfod a chyflwynodd aelodau'r Panel. Rhoddodd drosolwg o'r rôl i bob ymgeisydd ac esboniodd y broses benodi.

Cafodd yr ymgeiswyr eu hystyried yn erbyn y meini prawf a nodwyd yn yr adroddiad, a chynhaliwyd cyfweliadau gan y Panel.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Panel yn dewis dim mwy na phedwar ymgeisydd i gael eu penodi'n aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau.**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor Llawn ar 10 Medi 2019, i gadarnhau penderfyniad y Panel Dethol i enwebu'r pedwar ymgeisydd llwyddiannus fel aelodau newydd ar y Pwyllgor Safonau.**
- **Bod Cadeirydd y Panel yn argymell i'r Cyngor fod y pumed ymgeisydd yn cael ei benodi'n awtomatig i unrhyw swydd wag ar gyfer aelod annibynnol ar y Pwyllgor Safonau, petai achos o'r fath yn codi yn ystod y deuddeg mis nesaf.**

Daeth y cyfarfodydd i ben am 1.25 pm ar 29 Gorffennaf
ac 11.50 pm ar 30 Gorffennaf 2019

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**